



## Allwn i gadw gwenyn?

### Pam cadw gwenyn?

- Cynorthwyo'r amgylchedd a bioamrywiaeth
- Mwynhau hobi difyr
- Cynhyrchu eich mêl a'ch cŵyr eich hunan
- Cwrdd â phobl newydd – mae llawer iawn o gymorth ar gael.

### Ble alla'i gadw fy ngwenyn?

- Yn eich gardd
- Ar do
- Ar dir ffermio nas defnyddir
- Mewn gwenynfa gyfagos – holwch eich Cymdeithas Cadw Gwenyn leol

### Pa offer fydd arna'i ei angen?

- Offer diogelwch personol sylfaenol: gwisg gwenynwr un darn, menig ac esgidiau glaw
- Mygwr ac offer cwch gwenyn
- Cwch gwenyn a fframiau â sylfaen cŵyr
- Cnewyllyn o wenyn – byddant ar gael fel arfer ym Mehefin neu Orffennaf

### Faint mae'n costio?

- Dillad amddiffynnol ~£110
- Cwch gwenyn ~£200
- Eich cnewyllyn cyntaf o wenyn ~£100

**Cofiwch:** gallai cwch gwenyn gynhyrchu tua 30 pwys o fêl yn flynyddol, a gellir ei botelu a'i werthu am £5 y pwys

### Faint o amser y bydd ei angen?

- Bydd angen hanner awr yr wythnos rhwng mis Ebrill a mis Hydref i ofalu am gwch gwenyn.
- Bydd angen archwiliad allanol achlysurol o'r cwch gwenyn yn ystod y gaeaf.
- Dyna'r cyfan!

### Sut alla'i gychwyn?

- Dewch i'n Canolfan Ymwelwyr yn Nyffryn Conwy, darllenwch y wybodaeth ac edrychwch ar yr arddangosfeydd
- Dewch am dro o amgylch ein Gwenynfa
- Dewch i **Ddiwrnod Blasu Cadw Gwenyn** i weld a yw cadw gwenyn yn addas i chi
- Cysylltwch â'ch cymdeithas cadw gwenyn leol (ewch i [www.beeswales.co.uk](http://www.beeswales.co.uk)) neu holwch Gymdeithas Gwenynwyr Cymru ([www.wbka.com](http://www.wbka.com)) neu Gymdeithas Gwenynwyr Prydain ([www.bbka.org.uk](http://www.bbka.org.uk)) am ragor o wybodaeth
- Cyn cael eich gwenyn, dylech fynychu cwrs **Cyflwyniad i Gadw Gwenyn**. Cynhelir y rhain yn ystod y gaeaf fel arfer, ac mae manylion ar gael o'r ffynonellau uchod

### Ble all gwenynwr newydd gael cymorth?

- Eich Cymdeithas Cadw Gwenyn leol
- Trefnir cyrsiau ganddynt
- Gallant eich cynorthwyo i gysylltu â gwenynwr lleol profiadol a all eich mentora

### Beth am iechyd a diogelwch?

- Byddwch yn annhebygol o gael eich pigo os byddwch yn gwisgo'r dillad priodol. Cofiwch warchod eich pen a'ch gwddf
- Caiff y rhan fwyaf o wenynwyr eu pigo'n achlysurol, a dônt yn imiwn i bigiadau ymhen amser
- Bydd rhai pobl yn dioddef adwaith difrifol i bigiadau gwenyn. Mae hyn yn cynnwys rhai gwenynwyr, a bydd ganddynt Epipen bob amser rhag ofn iddynt gael eu pigo.
- Os byddwch yn cadw gwenyn gartref, ystyriwch eich cymdogion wrth ddewis lle ar gyfer y cwch gwenyn – byddwch yn ystyriol!

Canolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn Cymru  
Bwyd Cymru Bodnant  
Fferm Ffwrnais  
Tal-y-Cafn  
Conwy LL28 5RP

**01492 651106**  
[info@beeswales.co.uk](mailto:info@beeswales.co.uk)

